# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

1 Gorffennaf 2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 8 Gorffennaf 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol**

3. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 4)**

4. **Derbyn Adroddiad ynghylch cyn Ysgol Uwchradd Tregaron (Tudalennau 5 - 6)**

5. **Atodiad A yn berthnasol i'r Adroddiad uchod (Gwaharddwyd) (Tudalennau 7 - 8)**

6. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 3

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion ddydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2019**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd); y Cynghorwyr Marc Davies, Keith Evans, Wyn Thomas ac Ivor Williams

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Mrs Louise Harries, Cyfreithwraig a Mr Andrew Harries, Prif Swyddog Ystadau.

(1:30pm – 1:42pm)

1 **Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge, Endaf Edwards, Gwyn James a Mark Strong am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

3 **Materion Personol**
Ni chodwyd unrhyw faterion personol.

4 **Datgan Buddiannau Personol a Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

5 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2019 yn rhai cywir.

6 **Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8 **Neuadd Goffa Cei Newydd**
Dywedodd Louise Harries, Cyfreithwraig, fod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yn rhaid rhoi'r brydles ar waith a gwario'r gyllideb erbyn 31 Mawrth 2020, er mwyn cael cymeradwyaeth lawn am gyllid. Mae angen cadarnhad gan y Comisiwn Elusennol a oes angen Cynllun cyn y gellir rhoi prydles ar waith, go brin y ceir ymateb amserol bellach.

Mae rhybudd safle o un mis wedi ei osod ar y safle mewn perthynas â'r brydles arfaethedig. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion hyd yma a chyflwynir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Louise Harries mai'r bwriad, fel rhan o'r brydles arfaethedig, oedd dyfarnu trwydded i'r tenant yn cydsynio i waith y grant a bod y Sefydliad Corfforedig Elusennol wedi cynnig i'r drwydded hon gael ei dyfarnu, er mwyn iddynt allu dechrau ar y gwaith, gyda'r Sefydliad

Corfforedig Elusennol yn ysgwyddo'r risg llawn o ran costau ac o ran indemnio'r Cyngor, fel ymddiriedolwr, rhag pob atebolrwydd.

Nodwyd nad oedd gan yr Ystadau unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn ac y ceisir am gydsyniad yswiriwr y Cyngor. Mae'r grŵp wedi llofnodi'r drwydded o flaen llaw, yn amodol ar benderfyniad y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

Cadarnhaodd Louise Harries y bydd hi'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i'w diweddaru ar y cynigion o safbwynt y drwydded, fel eu bod yn ymwybodol o'r un pethau. Bydd Louise yn gofyn hefyd a fyddai'r drwydded yn ddigon ohoni'i hun i ryddhau arian ond go brin mai felly y bydd hi.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor:

Fod swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn cytuno ar drwydded waith gyda Sefydliad Corfforedig Elusennol 'Neuadd Goffa Cei Newydd' ac yn cwblhau'r drwydded a bod y Sefydliad Corfforedig Elusennol yn unig yn gyfrifol am y gost a'r risg, a hynny'n amodol ar dderbyn gwybodaeth bod yswiriwr yr ymddiriedolaeth yn fodlon ar y gwaith arfaethedig.

9 **Unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys y Pwyllgor ym marn y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w hystyried.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar xxxxxxx**

**CADEIRYDD:**

Eitem Agenda 4

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **8 Gorffennaf 2021** |
| **Teitl:** | **Hen Ysgol Uwchradd Tregaron** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried cynnig i brynu yn ogystal â'r argymhellion yn dilyn cyfarfod yr is-grŵp ar 10/06/2021** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

### 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n siŵr y bydd yr Aelodau yn cofio fod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2019, wedi penderfynu:

*a) rhoi'r eiddo ar y farchnad drwy'r Adain Ystadau gan ofyn am gynigion o oddeutu £160,000;*

*b) defnyddio'r arian a geir drwy werthu'r eiddo i dalu ffioedd yr Adain Ystadau, sef 1% o'r gwerthiant ynghyd â chost yr adroddiad Tystysgrif Perfformiad Ynni (mae angen hwn er mwyn gallu rhoi'r eiddo ar y farchnad) am iddynt weithredu fel asiant wrth werthu'r eiddo;*

*c) rhoi dirprwyaeth i aelodau is-grŵp y Pwyllgor ystyried unrhyw gynigion gan brynwyr posib ar yr amod bod unrhyw gynnig i brynu'r eiddo yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau er mwyn ei ystyried a gwneud penderfyniad terfynol yn ei gylch.*

### IS-GRŴP

1.2 Yr oedd is-grŵp a oedd yn cynnwys y Cynghorydd Elizabeth Evans, y Cynghorydd Keith Evans a'r Cynghorydd Ivor Williams wedi cwrdd â swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Adain Ystadau a'r Gwasanaethau Democrataidd ddydd Iau, 10 Mehefin 2021, i drafod cynnig a ddaeth i law am yr eiddo.

1.3 Mae'r cynnig hwn yn un diamod (hynny yw, ddim yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu unrhyw amodau eraill) ac mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad eithriedig sydd ynghlwm (Atodiad A). Mae'r Adain Ystadau yn cynghori, ar ôl marchnata'r eiddo a chael cyngor gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y dylid derbyn y cynnig diamod a ddaeth i law.

1.4 Cytunodd yr is-grŵp i argymell i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y dylai'r Pwyllgor dderbyn y cynnig fel y gellir bwrw ymlaen â'r gwerthiant.

### Y CAMAU NESAF

1.5 Fel ymddiriedolwyr sy'n penderfynu ar ran y Cyngor, caiff yr Aelodau eu hatgoffa, pa bynnag benderfyniad y deuent iddo, fod yn rhaid iddynt bwyso a mesur bob amser yr hyn sydd er lles pennaf yr elusen wrth iddynt wneud penderfyniadau. Mae'r Adran Gyfreithiol yn cynghori y byddai derbyn y cynnig sydd ar y bwrdd yn rhywbeth sydd er lles pennaf yr elusen gan fod yr Adain Ystadau yn argymell y cynnig. Hefyd byddai'n galluogi'r elusen i droi gwerth yr ased yn arian fel y gellir defnyddio'r enillion at amcanion yr elusen, sef hybu addysg i blant cyn oed ysgol ac oed ysgol yn Nhregaron.

1.6 Os bydd yr Aelodau'n penderfynu derbyn y cynnig uchod a bod y gwerthiant yn cael ei gwblhau, gellir dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i roi gwybod iddynt am gyfanswm yr arian sydd ym meddiant yr elusen ar ôl cwblhau'r gwerthiant a chydag argymhellion o ran sut y dylid defnyddio'r arian hwnnw i gyflawni amcanion yr elusen. Mae croeso i'r Aelodau ystyried a hoffent benodi is-grŵp i'r Pwyllgor i weithio gyda Swyddogion mewn perthynas â'r argymhellion hynny, cyn bod unrhyw argymhellion yn dod yn ôl i'r Pwyllgor llawn i'w hystyried ac i benderfynu yn eu cylch.

**Argymhellion:**

a) Derbyn y cynnig i brynu Hen Ysgol Tregaron;

b) Penderfynu bod y Swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn dod i gytundeb ac yn cwblhau'r holl ddogfennaeth a materion ategol angenrheidiol, er mwyn bwrw ati i werthu'r eiddo;

c) Creu is-grŵp o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, i'w enwebu yn y cyfarfod ar 08/07/2021, a fydd yn cael ei ddirprwyo, ar ôl gwerthu'r eiddo, i ystyried argymhellion ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw gyfalaf neu incwm sydd ym meddiant yr elusen a hynny er mwyn cyflawni amcanion yr elusen. Rhoddir gwybod i gyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau am unrhyw argymhellion a ddaw o'r is-grŵp, er mwyn iddynt eu hystyried ac i benderfynu yn eu cylch.

| | | |
|---|---|---|
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | I fwrw ymlaen i werthu'r eiddo. | |
| **Atodiadau:** | A – Gwybodaeth eithriedig (Hen Ysgol Uwchradd Tregaron) | |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | **Elin Prysor** | **Russell Hughes-Pickering** |
| **Swyddogion Adrodd:** | **Louise Harries** | **Thomas Williams** |
| **Dyddiad:** | **22 Mehefin 2021** | |

# Eitem Agenda 5

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol